

NCFE Introductory Diploma in Travel and Tourism Level 3



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn rhoi'r sgiliau uwch sydd eu hangen arnoch i weithio yn y diwydiant neu symud ymlaen i addysg uwch. Byddwch yn ennill dealltwriaeth eang o'r sector ynghyd ag ystod o sgiliau arbenigol.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Rydych chi'n awyddus i ddysgu mwy am Deithio a Thwristiaeth
- ... Oes gennych ddiddordeb dilyn gyrfa yn y byd Teithio a Thwristiaeth
- ... Rydych eisiau teithio'r byd, cyfarfod pobl newydd a mynd ar antur

Beth fyddaf yn ei wneud?

Gall gweithio yn y diwydiant Teithio a Thwristiaeth ddod â llu o gyfleoedd cyffrous. Gallech gael eich hun yn teithio dramor yn ddyddiol, gan weithio'n rhyngwladol neu gwrdd â phobl o bob

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

cwr o'r byd pan fyddant yn ymweld â'ch mamwlad.

Mae'r diwydiant eisoes yn gyfrifol am fwy na 10% o gyflogaeth fyd-eang ac mae tua 2,000,000 o bobl yn gweithio ym maes twristiaeth ym Mhrydain, gan ei wneud yn un o ddiwydiannau mwyaf poblogaidd y wlad.

Mae'r unedau ar y cwrs yn cynnwys:

- Ymchwilio i'r diwydiant teithio a thwristiaeth
- Busnes teithio a thwristiaeth
- Gwasanaeth cwsmer
- Y DU fel cyrchfan
- Teithio manwerthu
- Gweithrediadau teithiau
- Cyrchfannau Ewropeaidd
- Paratoi ar gyfer cyflogaeth
- Profiad Gwaith
- Ymchwilio i'r diwydiant mordeithiau
- Twristiaeth arbenigol
- Gweithrediadau teithio busnes
- Gweithio fel cynrychiolydd gwyliau
- Trefnu ymweliad astudio
- Marchnata cynhyrchion a gwasanaethau
- Cyrchfannau pell



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

- Ymchwilio i faterion cyfredol yn y diwydiant teithio a thwristiaeth
- Twristiaeth gyfrifol

Asesir y cwrs trwy waith portffolio, gwaith cwrs, prosiectau, gwaith grwp a chyflwyniadau. Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch wedi cael:

Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Teithio a Thwristiaeth
Bagloriaeth Cymru

Cymwysterau cefnogi priodol i ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant
Gweithgareddau sgiliau

[Mathemateg a Saesneg](#) (os nad ydych wedi cael Gradd C neu uwch ar lefel TGAU)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gael eich derbyn ar y cwrs, bydd angen o leiaf 5 TGAU (Gradd C neu uwch) arnoch i gynnwys Saesneg / Cymraeg Iaith Gyntaf

NEU

Cymhwyster Diploma Lefel 2 priodol ar Radd Teilyngdod gyda TGAU Saesneg / Cymraeg Iaith Gyntaf ar Radd C neu uwch.

Rhaid i chi ddangos brwdfrydedd dros y diwydiant teithio a thwristiaeth. Bydd angen i chi fod yn hunan-gymhellol, yn un am weithio'n galed, cael gafael dda ar rifedd a bod gennych bersonoliaeth gyfeillgar. Mae presenoldeb a phrydlondeb ar gyfer pob sesiwn yn un o brif ofynion y cwrs hwn.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl dwy flynedd o gwrs, gallwch symud ymlaen i'r cwrs HND mewn Rheolaeth Twristiaeth a Lletygarwch yng Nghampws Crosskeys, cyflogaeth neu gwrs prifysgol sy'n gysylltiedig â theithio a thwristiaeth.

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd gofyn i chi brynu gwisg a fydd yn costio rhwng £90 a £140, yn ogystal â thalu am deithiau

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

ac ymweliadau a fydd yn costio tua £150.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

